Chwaraeon RhCT
Sport RCT

@sportrct
www.chwaraeonrhct.co.uk | www.sportrct.co.uk

# Astudiaeth Achos



## YGG Castellau - Her Hwyl

Mae staff a disgyblion YGG Castellau wedi datblygu prosiect i wella amser chwarae ar yr iard. Roedden nhw eisiau i ferched a bechgyn chwarae gyda'i gilydd yn Gymraeg. Roedden nhw hefyd eisiau creu rhagor o gyfleoedd i blant gadw'n heini a rhoi cynnig ar rywbeth newydd a heriol.

Roedd y Cyngor Chwaraeon eisiau gwella'r defnydd o'r iard chwarae a lleihau nifer yr offer chwaraeon oedd yn cael eu torri. Cafodd yr 'Her Hwyl' ei datblygu. Bob pythefnos, mae'r Cyngor Chwaraeon yn cyd-weithio â'r athrawon i greu her newydd gan ddefnyddio'r offer chwaraeon. Roedd adborth y plant yn anhygoel! Fe wnaeth yr heriau newydd a chyffrous ennyn diddordeb bechgyn a merched o bob oed ac fe greodd wefr go iawn yn y maes chwarae.

Er mwyn adeiladu ar lwyddiant y prosiect yma, mae'r ysgol yn bwriadu lansio clwb Cyngor Chwaraeon ar ôl ysgol. Bydd hyn yn gyfle i ddysgu gemau newydd i'w defnyddio amser chwarae. Bydd y clwb yn gysylltiedig â'r Clwb 'Cewri Castellau' i sicrhau bod pob gêm drwy gyfrwng y Gymraeg yn defnyddio'r termau a'r geiriau cywir er mwyn parhau i wella a datblygu geirfa Cymraeg y disgyblion.

## Pam mae'r ysgol wedi gwneud hyn?

- Er mwyn difyrru'r plant a'u cadw'n symud yn ystod amser chwarae
- Hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg ar yr iard
- Rhoi cyfle i blant herio'u hunain
- Annog bechgyn a merched i ddod at ei gilydd i chwarae

## Sut mae hyn wedi helpu?

- Mae'r Cyngor Chwaraeon yn rhan o bethau ac yn mwynhau'r cyfrifoldeb
- Mae llai o offer chwaraeon wedi'u torri
- Mae plant yn cymryd rhan ac yn rhoi cynnig ar bethau newydd
- Mae'r rhaniad rhwng bechgyn a merched yn llai amlwg
- Mae'r plant yn siarad rhagor o Gymraeg ar yr iard

**230**
o blant yn cymryd rhan

**10**
aelod o'r Cyngor Chwaraeon yn rhan o'r cynllun

**2**
o'r athrawon yn cymryd rhan

RHONDDA CYNON TAF